

CRYNODEB GWEITHREDOL: RHAGLEN YSGOLION YR 21AIN GANRIF – ADOLYGIAD O ADDYSG ÔL-16 YN NHORFAEN – TREFNIADAU YMGYNGHORI.

1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r crynodeb gweithredol hwn yn egluro'r rhesymau a'r trefniadau ymgynghori mewn perthynas â chynigion i sefydlu Canolfan 6ed dosbarth ar gyfer Torfaen a gwneud newidiadau rheoledig i Ysgol Croesyceiliog, Ysgol Uwchradd Cwmbrân ac Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Alban drwy roi terfyn ar ddarpariaeth 6ed dosbarth.

2 Diben yr Adroddiad

2.1 Darparu manylion am drefniadau ymgynghori mewn perthynas â'r cynigion hyn.

3 Negeseuon Allweddol/Cefndir

3.1 Mae'r bwriad i gyflwyno cynigion i newid y ffordd y mae addysg ôl-16 yn cael ei darparu yn Nhorfaen wedi ei gynnwys yn rhan o Raglen Ysgolion 21ain Ganrif gyffredinol y cyngor.

3.2 Cafodd y rhaglen ei dogfennu'n dda, gyda'r cyngor yn cymryd y penderfyniad i gynnwys pob ysgol yn ogystal â'r ddarpariaeth ôl-16 fel rhan ohoni ym mis Hydref 2010. Ceisiodd y cyngor farn pawb sydd â diddordeb, ynghylch ei rhaglen yn ystod cyfres o sioeau teithiol a gynhaliwyd ar draws y fwrdeistref sirol ym mis Mawrth 2011.

3.3 Adroddwyd ynghylch canlyniad yr ymgysylltu cyhoeddus hwn i'r cabinet ym mis Gorffennaf 2011. Yn dilyn y cyfarfod hwn, gofynnodd Llywodraeth Cymru i gynghorau ddiwygio eu cynigion Band A gwreiddiol (a gyflwynwyd yn wreiddiol ym mis Hydref 2010) yn erbyn y meini prawf blaenoriaethu a ganlyn:

- Lefel y cyllid cyfatebol sydd ei angen gan y cyngor yn cynyddu o 30% i 50%
- Cyflwr gwaethaf yr ystâd (y cyngor i flaenoriaethu er y bydd y data annibynnol ar arolwg ysgolion yn cael ei gymhwyso)
- Capasiti lleoedd gwag - nifer y lleoedd gwag fydd y dangosydd allweddol (fel canran ac fel amcangyfrif o'r gostyngiad gwirioneddol yn nifer y lleoedd)
- Effeithlonrwydd cynnal (gostyngiad ee mewn costau cynnal, ôl-groniad cynnal a chadw)

3.4 Cymeradwywyd y Rhaglen Amlinellol Strategol diwygiedig gan y Cyngor ym mis Tachwedd 2011 gyda Llywodraeth Cymru yn cadarnhau arian cyfatebol mewn egwyddor ym mis Rhagfyr 2011.

4 Pam fod angen gwneud newidiadau i addysg ôl-16

4.1 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen o'r enw "Trawsnewid y Ddarpariaeth

Addysg a Hyfforddiant" ym mis Medi 2008, yn herio cynghorau, colegau addysg bellach a phartneriaid i adolygu eu darpariaeth yn 16 a hŷn ac yn ystyried sut i'w thrawsnewid fel ei bod yn addas ar gyfer y dyfodol. Yn 2011 cafodd yr her ei dwyn i mewn i Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Roedd Llywodraeth Cymru am i'r rhai sy'n gweithio yn y maes addysg ôl-16 yn benodol, i:

- Ehangu'r opsiynau sydd ar gael i fyfyrwyr yn 14-19 mewn ffordd sy'n paratoi pobl ifanc ar gyfer yr ystod lawn o lwybrau sy'n agored iddynt ac sy'n parchu gwahanol arddulliau dysgu'r myfyrwyr hynny.
- Lleihau dyblygu darpariaeth yn ddiangen trwy lefelau uwch o gydweithio i gynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm.
- Symud i ragoriaeth ar draws rhwydweithiau o ddarparwyr, gan adeiladu ar y cynnydd a wneir gan ddarparwyr unigol wrth godi ansawdd rheolaeth sefydliadol a phrofiad dysgu myfyrwyr.

Prif ysgogydd y cynigion yw:

- Yr angen i wella cyfraddau cadw a chanlyniadau dysgwyr.
- Yr angen i drawsnewid addysg ôl-16 yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru o ran "Trawsnewid y Ddarpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru" (2008).
- Yr angen i newid dosbarthiadau 6ed a chreu model cyflenwi sy'n fwy effeithlon a chynaliadwy.
- Creu cysylltiadau â phrosiectau eraill o fewn Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif y cyngor, yn arbennig, ysgol newydd ar gyfer Ysgol Croesyceiliog a chynigion sydd ar hyn o bryd ym Mand B ar gyfer rhai o ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr y fwrdeistref sirol.

4.2 Mae ymgynghori statudol yn angenrheidiol oherwydd bod y cyngor yn bwriadu cau'r ddarpariaeth 16 - 18 (chweched dosbarth) yn Ysgol Croesyceiliog, Ysgol Uwchradd Cwmbrân ac Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Alban a darparu darpariaeth ôl-16 ar gyfer yr ysgolion hyn a'r ddwy ysgol 11-16 yn Nhorfaen (Abersychan a Gorllewin Mynwy) mewn Canolfan 6ed Dosbarth newydd.

5 Materion a chanfyddiadau

5.1 Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid ymgynghoreion gael o leiaf 42 diwrnod i ymateb i'r ddogfen, gydag o leiaf 20 o'r rhain yn ddiwrnodau ysgol. Gan gymryd hyn i ystyriaeth, bydd y cyfnod ymgynghori yn cychwyn ar 11 Tachwedd 2016 ac yn cau ar 23 Rhagfyr 2016.

5.2 Bydd yr ymgynghoriad yn cychwyn trwy gyhoeddi dogfen ymgynghori, a'i dosbarthu i ymgynghoreion a ragnodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2013, yn gwahodd sylwadau ar y cynigion. Bydd plant a phobl ifanc hefyd yn cael eu cynnwys yn yr ymgynghoriad.

- 5.3 Bydd y ddogfen ymgynghori yn cynnwys gwybodaeth gyd-destunol am y cynigion, amlinellu'r newidiadau sy'n cael eu hystyried, y rhesymeg ar gyfer y rhain, manylion am y broses ymgynghori, yn ogystal â ffurflen ymateb. Bydd ymgynghoreion yn cael gwybod bod fersiwn ar-lein ar gael i'w chwblhau yn ogystal â chyfeiriadau i anfon sylwadau drwy e-bost.
- 5.4 Bydd y broses ymgynghori hefyd yn cael ei hyrwyddo ar-lein, trwy wefan Cyngor Torfaen a sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Gellir nodi safbwyntiau neu wneud sylwadau trwy:

- Ysgrifennu at Mr Dermot McChrystal, Pennaeth y Gwasanaethau Addysg (AS Mark Horton) d/o Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl, Torfaen NP4 6YB.
- Trwy e-bost: secondaryreview@torfaen.gov.uk.
- Trwy fynychu un o ddigwyddiadau 'galw heibio' yr ymgynghoriad (manylion isod) a llenwi ffurflen ymateb (wedi'i hatodi gyda'r ddogfen ymgynghori) a'i dychwelyd i'r cyfeiriad uchod.

Trefnwyd digwyddiadau ymgynghori fel a ganlyn:

DYDD/DYDDIAD	AMSER	LLEOLIAD	CYNULLEIDFA DARGED
Dydd Mercher, 23 Tachwedd 2016	4.30pm – 6.30pm	Canolfan Byw Egnïol Pont-y-pŵl. NP4 8AT	Disgyblion a myfyrwyr; Staff (addysgu, nad ydynt yn addysgu a Chynorthwyr) o ysgolion a Choleg Gwent; Llywodraethwyr; Rhieni / gofalwyr; Trigolion lleol; Ymgynghoreion statudol a phartion eraill â diddordeb.
Dydd Llun, 5 Rhagfyr 2016	4.30pm – 6.30pm	Stadiwm Cwmbrân NP44 3YS	
Dydd Mercher, 14 Rhagfyr 2016	5.00pm – 7.00pm	Campws Cymuned Blaenafon. NP4 9AW	

Bydd swyddogion yn mynychu'r sesiynau "galw heibio" i ateb cwestiynau a sicrhau bod yr holl sylwadau a wnaed yn cael eu cofnodi er mwyn i'r Aelodau Etholedig wneud penderfyniad gwybodus ar yr adeg briodol.

6 Materion Allweddol.

- 6.1 Mae ymgynghori statudol yn angenrheidiol, oherwydd bod y cyngor yn bwriadu cael gwared ar ddarpariaeth chweched dosbarth o'i ysgolion Cyfrwng Saesneg 11 - 18 oed ("Newidiadau a Reoleiddir") a sefydlu Canolfan Chweched Dosbarth i Dorfaen.

Dylid nodi y byddai darpariaeth ôl-16 cyfrwng Cymraeg yn parhau yn Ysgol Gyfun

Gwynllyw ac yn gweithio mewn partneriaeth ag Ysgol Cwm Rhymni ac Ysgol Gyfun Gwent Iscoed (Casnewydd) a agorodd ym Medi 2016.

6.2 Yn benodol, cynigir bod y cynigion hyn yn cael eu gweithredu ar 1 Medi 2019.

6.3 Y pedwar Amcan Buddsoddi bydd y cyngor yn cyflawni yn eu herbyn o ganlyniad i'r prosiect hwn yw:

- Gwella effeithiolrwydd a chanlyniadau gwasanaeth i bob dysgwr.
- Darparu economïau ac effeithlonrwydd wrth ddarparu gwasanaeth.
- Darparu cyfleoedd newydd a gwell i'r holl ddysgwyr.
- Gwella profiad y dysgwr a'r atyniad i bob dysgwr.

Bydd bwrw ymlaen â'r prosiect hwn hefyd yn galluogi'r cyngor i gwblhau'r cynlluniau i ddarparu ysgol newydd i gymryd lle adeilad presennol Ysgol Croesyceiliog (uwchradd).

7 Beth sy'n digwydd nesaf?

7.1 Mae'r amserlen ganlynol yn rhoi manylion yr hyn sy'n digwydd nesaf ac yn nodi'r broses statudol:

- Ymgynghoriad cychwynnol yn mynd rhagddo (6 wythnos) – 11 Tachwedd 2016 tan 23 Rhagfyr 2016
- Cabinet yn derbyn adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad ac yn ystyried y camau nesaf – Ionawr 2017
- Os cytunir, bydd hysbysiadau statudol yn cael eu cyhoeddi (cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod) – Ionawr/Chwefror 2017
- Gwrthwynebiadau ac Adroddiad ar y Gwrthwynebiadau yn cael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru i bennu'r cynnig (35 diwrnod ar ôl diwedd y cyfnod gwrthwynebu) – Ebrill 2017
- Gweithredu'r cynnig – dechrau'r flwyddyn academaidd 2019/20.

8 Casgliadau/ Crynodeb

8.1 Bydd gweithredu'r cynigion hyn yn rhan hanfodol o Raglen Ysgolion 21ain Ganrif Torfaen, yn nhermau:

- medru darparu addysg eang o safon uchel i'r holl ddisgyblion yn y gymuned.
- caniatáu i'r Awdurdod Lleol rhesymoli'i stoc adeiladau felly'n sicrhau bod ganddo llai o ysgolion i'w cynnal ac ariannu.
- rheoli lleoedd gwag yn fwy effeithiol.

Gwybodaeth bellach

9

Mae copi llawn o'r ddogfen ymgynghori (Cyfrwng Saesneg) y cyfeirir ati yn y crynodeb gweithredol hwn ar gael drwy ffonio 01495 766910 neu wrth ymweld â gwefan y Cyngor: www.torfaen.gov.uk.

Os oes angen gwybodaeth bellach ynghylch y cynigion hyn, cysyllter â Mark Horton Ffôn: 01495 766910 neu e-bost: mark.horton@torfaen.gov.uk

